## Cymorth gydag AA2 i ganolfannau: rhai awgrymiadau ar gyfer addysgu

**DS *natur y wybodaeth hon yw datblygu AA2. NID yw'r hyn sy'n dilyn yn rhoi atebion diffiniol – awgrymir ymresymiadau er mwyn dangos sgiliau AA2, ond mae CBAC yn argymell yn gryf y dylid eu datblygu ymhellach ac y dylai athrawon ac ymgeiswyr ddefnyddio eu syniadau a'u gwerthusiadau eu hunain mewn ymateb i'r deunyddiau sydd eisoes wedi'u darparu.***

Ar gyfer sgiliau AA2, mae'n bwysig cofio mai'r hyn a asesir yw sgiliau gwerthuso ac nid dim ond gwybodaeth a dealltwriaeth o'r cynnwys. Rhestrir y chwe bwled ar gyfer pob Thema o dan gynnwys AA1. NID cwestiynau mohonynt ond, yn hytrach, arwyddion o'r meysydd trafod a all godi mewn datganiad cwestiwn AA2 nodweddiadol. At hynny, wrth i ddeunydd AA1 gael ei astudio holl ddiben AA2 yw mynd ati i ddeall deunydd AA1 mewn ffordd feirniadol a gwerthusol sydd, yn sicr, yn ddisgyblaeth drylwyr ac academaidd.

Un o'r nodweddion mwyaf cyffredin a welir mewn adroddiad gan Brif Arholwr yw'r sylw rheolaidd bod ymgeiswyr ond **yn cyflwyno rhestrau o safbwyntiau** o blaid dadl a/neu sy'n ei herio, a hynny'n aml mewn ymateb i gwestiwn lle y disgwylir gwerthusiad. Felly, er enghraifft, gall cynllun marcio nodweddiadol restru pwyntiau bwled i'w hystyried ond nid yw eu hailadrodd yn dangos AA2. Mae'r ffordd y caiff pwyntiau eu **DEFNYDDIO** a'u **DATBLYGU** gan athrawon ac ymgeiswyr i lunio dadansoddiad a gwerthusiad beirniadol yn hollbwysig ac mae'n troi unrhyw ddeunydd awgrymedig yn ddadl academaidd sy'n adlewyrchu disgrifyddion Band AA2.

Nid oes dim byd o'i le ar baratoi'ch ystyriaethau a'ch myfyrdodau ar bwnc mewn ymateb i'r adran ar 'Materion i'w gwerthuso a'u dadansoddi' yn y Fanyleb; **fodd bynnag, yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod rhyw fath o ddadansoddi neu sylwadau personol drwy'r ateb cyfan** a all gael **eu defnyddio wedyn i ddod i gasgliad rhesymol.**

Mae sgiliau gwerthuso a dadansoddi yn cyflwyno eu hunain fel deialog barhaus rhwng llais y dystiolaeth neu'r safbwyntiau rydych yn eu dewis, a'ch llais eich hun, gyda chi, yn y diwedd, yn cael y gair olaf gan nodi'ch safbwynt yn glir [casgliad(au)].

## Bwdhaeth
## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Bwdhaeth Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried pwysigrwydd cymharol y Canon Pali mewn Bwdhaeth.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae'r Canon Pali yn cynnwys y Vinaya Pitaka, Sutta Pitaka ac Abhidhamma Pitaka. Felly mae'n bwysig iawn fel y brif ffynhonnell ddoethineb i Fwdhyddion Theravada. Mae ganddo amrywiaeth ehangach o ddarllenwyr hefyd o fewn Bwdhaeth, ac mae llawer o destunau Mahayana yn seiliedig arno.
2 Caiff y Patimokkha - yn y Vinaya Pitaka - eu hailadrodd heddiw gan sangha mynachaidd Theravada bob pythefnos. Mae'n bosibl y bydd mynachod a lleianod hefyd yn ceisio cofio'r Patimokkha. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd parhaus y Canon Pali.
3. Y Dhammapada – dywediadau'r Bwdha – yw un o'r testunau Bwdhaidd mwyaf adnabyddus a phoblogaidd yn enwedig ymhlith Bwdhyddion sydd wedi 'troi' at Fwdhaeth yn y Gorllewin. Fe'i ceir yn ysgrifweithiau llai y Sutta Pitaka - gan awgrymu felly bwysigrwydd parhaus y Canon Pali.
4. Dim ond i'r sangha mynachaidd y mae'r rhan fwyaf o'r Canon Pali at ei gilydd yn berthnasol. Mae hyn yn wir am y Vinaya Pitaka. Yn ogystal, mae'r ddysgeidiaeth haniaethol a chymhleth yn yr Abhidhamma Pitaka yn golygu mai dim ond i fynachod, lleianod ac ysgolheigion sy'n ymgymryd ag astudiaethau dhamma ar lefel uwch y mae'n berthnasol. Felly, mae hyn yn awgrymu nad yw'n bwysig iawn yn gyffredinol. Fodd bynnag, caiff llawer o'r syniadau yn yr Abidhamma eu datblygu mewn testunau Mahayana.
5. Nid yw Bwdhyddion o draddodiadau eraill megis Bwdhaeth Mahayana, Vajrayana a Thibetaidd o'r farn bod y Canon Pali mor bwysig ac yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar ffynonellau doethineb ac awdurdod eraill megis Sutra'r Lotws neu Sutra'r Galon.
6. Prin yw'r pwysigrwydd y byddai Bwdhyddion sy'n dilyn Bwdhaeth y Tir Pur, Nichiren a Zen yn ei atodi i'r Canon Pali, gan mai ailadrodd y nembutsu, daimoku neu sylweddoliad sydyn a wireddir drwy ddefnyddio koans sy'n ofynnol er mwyn cyflawni goleuedigaeth neu aileni.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pa mor ddibynadwy yw'r Canon Pali fel ffynhonnell o ystyried iddo gael ei ysgrifennu tua 300 mlynedd ar ôl marwolaeth y Bwdha?
2. I'r gwrthwyneb, i ba raddau y dylid dibynnu ar y traddodiad llafar rhwng marwolaeth y Bwdha a ffurf ysgrifenedig y Canon Pali i allu gwarchod rhannau allweddol o'r ddysgeidiaeth?
3. A yw'r ffaith bod dysgeidiaeth Bwdhaidd allweddol ar y pedwar Gwirionedd Nobl i'w chael yn y Dhammacakkappavattana Sutta o'r Canon Pali yn golygu bod y Canon yn holl bwysig i bob Bwdhydd?
4. Mae'r rhan fwyaf o Fwdhyddion yn unedig wrth geisio noddfa gan y Bwdha, y dharma a'r sangha. Gan fod y Canon Pali yn darparu'r ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth am y Bwdha hanesyddol, dysgeidiaeth y Bwdha a'r rheolau ar gyfer y sangha, onid yw hyn yn golygu bod y Canon Pali yn holl bwysig i'r rhan fwyaf o Fwdhyddion?

## Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. I'r sangha mynachaidd y mae'r Canon Pali yn bwysig yn bennaf ac mae wedi helpu i warchod credoau ac arferion Bwdhaidd dros y canrifoedd.
2. Nid oes angen y Canon Pali cyfan ar Fwdhyddion lleyg mewn gwirionedd ac felly mae ei bwysigrwydd cyffredinol yn gyfyngedig.
3. Dim ond i Fwdhyddion Theravada y mae'r Canon Pali yn bwysig ac nid yw'n bwysig iawn mewn gwirionedd i Fwdhyddion eraill.
4. Dim ond 'bysedd yn pwyntio tuag at y lleuad' yw pob dysgeidiaeth – felly dim ond pwysigrwydd amodol sy'n gysylltiedig â nhw, neu dim ond i gyfnodau penodol o hanes y maent yn berthnasol.

## Bwdhaeth
## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Bwdhaeth Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

### Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried arwyddocâd y Vinaya ar gyfer y sangha.

#### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gellir gweld pwysigrwydd y Vinaya oherwydd caiff ei ystyried fel y rhan hynaf o'r Tripitaka gyda'r Bwdha ei hun yn pennu rheolau ar gyfer y Sangha.
2. Mae'r gred bod y Patimokkha wedi cael ei adrodd ers cyfnod y Bwdha - hynny yw cyn creu fersiwn ysgrifenedig o unrhyw ran o'r Tripitaka - yn darparu cyswllt uniongyrchol rhwng y sangha mynachaidd a'r Bwdha hanesyddol ei hun.
3. Caiff y Patimokkha - yn y Vinaya Pitaka - eu hailadrodd heddiw gan sangha mynachaidd Theravada bob pythefnos. Mae'n bosibl y bydd mynachod a lleianod hefyd yn ceisio cofio'r Patimokkha. Mae hyn yn dangos arwyddocâd parhaus y Vinaya. Dros gyfnod o fwy na 2500 o flynyddoedd, mae Bwdhaeth wedi goroesi oherwydd parhad y sangha mynachaidd, a gynhaliwyd i raddau helaeth drwy barchu'r Vinaya Pitaka.
4. Nid oes angen y Vinaya llawn ar y sangha lleyg ar gyfer eu hanghenion eu hunain.
5. Nid oedd datblygiadau Mahayanaidd yn gwerthfawrogi manylion y Vinaya cymaint - mewn llawer o ysgolion Mahayanaidd, mae mynachod a lleianod yn priodi (ac fe'u gelwir weithiau yn offeiriaid).
6. Mae triratna yn nodi bod 'ymroddiad' (h.y. credoau) yn bwysicach na 'ffordd o fyw' (mae'r Vinaya yn cyfeirio ffordd o fyw mynachod).

#### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Pa mor ddefnyddiol yw'r Vinaya Pitaka ar gyfer y sangha yn gyffredinol – hynny yw, ar gyfer pobl leyg nad ydynt yn fynachod nac yn lleianod?
2. A yw defnyddioldeb y Vinaya Pitaka wedi dirwyn i ben o ran y sangha yn y 21$^{ain}$ ganrif ac o ystyried arfer Bwdhyddion sydd wedi troi at Fwdhaeth yn y Gorllewin?
3. A yw'r Vinaya Pitaka yn canolbwyntio cymaint ar y traddodiad mynachaidd a'r Patimokkha fel nad oes modd ystyried datblygiadau allweddol fel y rheini a geir o fewn Bwdhaeth sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas?
4. A yw'r Patimokkha yn y Vinaya Pitaka yn atgyfnerthu'r hyn y gellid ei ystyried yn wreig-gasineb o ystyried y 227 o reolau ar gyfer mynachod a'r 311 o reolau ar gyfer lleianod?
5. A yw'r Vinaya Pitaka yn parhau'n ffon fesur werthfawr sy'n gwarchod y sangha rhag llygredd ac yn cynnal delfryd bur y gallai pob Bwdhydd anelu ati?

#### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Profwyd arwyddocâd y Vinaya Pitaka gan ei fod wedi gwrthsefyll treigl amser a'i fod yn parhau'n berthnasol i'r sangha mynachaidd heddiw.
2. I'r gwrthwyneb, nid yw'r Vinaya Pitaka bellach yn ddefnyddiol ac mae angen dull gweithredu newydd ar gyfer bywyd mynachaidd yn ystod y 21ain ganrif ac i Fwdhyddion sydd wedi troi at Fwdhaeth. Mae'r Vinaya yn batriarchaidd iawn, ac felly yn hynod broblemataidd.
3. Fel gydag unrhyw destun cysegredig neu ffynhonnell o ddoethineb, o ystyried ei oedran, mae'r Vinaya yn ddeunydd cyfeirio gwerthfawr ac felly arwyddocaol o hyd i'r sangha cyfan.

## Bwdhaeth
## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Bwdhaeth Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

### Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried p'un a yw'r ddysgeidiaeth yn y Sutras Mahayana yn cynrychioli realiti.

#### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. At ei gilydd, mae'r Sutras Mahayana yn portreadu bydysawd o ddemoniaid, brenhinoedd, aswras, devas, bodhisattvas nefol, teyrnasoedd dibenion lluosog ac ati nad yw'n cynrychioli realiti fel y'i deellir yn y paradeim gwyddonol.
2. Mae'r Sutras Mahayana yn disgrifio haen o bodhisattvas y gellir galw ar eu cymorth sy'n tynnu sylw oddi ar ymdrech unigolyn i gyflawni goleuedigaeth drwy ei ymdrechion ei hun.
3. Nid ymddengys fod y Sutra Tir Pur Sukhavati sy'n cynnwys disgrifiad o greu'r Tir Pur a byd arall y Bwdha yn cynrychioli realiti o gwbl fel y'i deellir mewn unrhyw baradeim gwyddonol ac eithrio o bosibl damcaniaeth y byd paralel mewn mecaneg cwantwm.
4. Gellid ystyried bod esboniad Sutra'r Galon bod popeth yn wag (sunya) mewn perthynas â bodolaeth gynhenid (svabhava) yn gyson â dealltwriaeth wyddonol o realiti, er enghraifft, drwy ffiseg ronynnol.
5. Er mwyn cynrychioli realiti yn llwyr, yn ddi-os rhaid cyflwyno rhyw gysyniad o darddiad mewn perthynas â'r bydysawd fel damcaniaeth y Glec Fawr – nid oes unrhyw gysyniad o'r fath yn y Sutras Mahayana.
6. Gellid gofyn beth yw ystyr y term 'realiti' i ddechrau, a ph'un a wnaed camgymeriad categori wrth geisio dod o hyd i gysyniad Gorllewinol o'r fath mewn testunau Bwdhaidd.

#### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y dylid darllen y Sutras Mahayana cyfan fel disgrifiadau metafforaidd/mytholegol nad ydynt yn anelu at gynrychioli realiti?
2. I ba raddau y byddai'r Sutras Mahayana yn goroesi'r math o graffu a awgrymir gan y Kalama Sutta o ran eu dull gweithredu mewn perthynas â realiti?
3. A yw Sutra'r Galon yn wahanol wrth fynnu ar sunya ac a yw felly yn cynrychioli realiti yn llwyr fel y'i deellir o safbwynt gwyddonol?
4. I ba raddau y gellid dadlau mai dim ond disgrifio realiti ysbrydol sy'n bodoli ond sydd y tu allan i derfynau gwaith ymchwil empiraidd y mae'r Sutras Mahayana?
5. I ba raddau y mae darnau allweddol o'r Sutras Mahayana – fel Dameg y Tŷ a Losgodd – yn amlwg yn cynrychioli realiti?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Yn y pen draw, mae gofyn i ba raddau y mae'r Sutras Mahayana yn cynrychioli realiti yn ceisio gwneud yr hyn a amheuir yn Nameg y Saeth Wenwynig h.y. dyfalu ofer.
2. Mae Sutra'r Galon a Sutra'r Lotus yn greiddiol i Fwdhyddion Mahayana a chânt yn aml eu llafarganu yn llawn neu ar ffurf dyfyniadau. I'r rheini sy'n gwneud hyn, mae'r Sutras yn amlwg yn cynrychioli realiti.
3. O ganlyniad i ddatblygiad rhesymoliaeth a'r paradeim gwyddonol, nid yw'n bosibl i'r Sutras Mahayana gynrychioli realiti.
4. Gellir dadfytholegu'r sutras yn hawdd - bodhisattvas yn cynrychioli gweithrediad tosturi yn y bydysawd, er enghraifft.
5. Os derbynnir cysyniad Nagarjuna o gydraddoldeb a chydymddibyniaeth nirvana a samsara, nid yw realiti yn debygol o gydymffurfio â'r ffordd o feddwl anoleuedig, gwahaniaethol a geir yn y paradeim gwyddonol.

## Bwdhaeth
## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Bwdhaeth Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

### Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried dulliau medrus fel cysyniad sy'n allweddol er mwyn deall amrywiaeth Bwdhaeth

#### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae dulliau medrus yn egluro y gall amrywiaeth eang o dechnegau gyflawni diben goleuedigaeth.
2. Mae Dameg y Tŷ sy'n Llosgi yn dangos bod dulliau medrus yn allweddol gan ei bod yn pwysleisio bod natur frys y cyflwr dynol a chyflwr dryslyd bodau dynol yn golygu bod angen amrywiaeth o gyfryngau er mwyn sicrhau goleuedigaeth.
3. Mae Dameg y Tŷ sy'n Llosgi yn nodi bod dysgeidiaeth y Bwdha yn amodol ac mae hyn yn egluro amrywiaeth Bwdhaeth.
4. I'r gwrthwyneb, ymddengys fod ekayana (un llwybr/cyfrwng) yn nodi yn y pen draw nad oes unrhyw amrywiaeth gan fod pob llwybr yn arwain at yr un llwybr bodhisattva.
5. Mae dulliau medrus yn helpu i egluro'r dywediad o'r Shurangama Sutta nad oes unrhyw rai o'r llwybrau amrywiol yn cyfateb i'r gwirionedd fel y cyfryw, ond bod pob un fel bysedd yn pwyntio at y lleuad.
6. I'r gwrthwyneb, gellid ystyried bod ffactorau mwy bydol yn allweddol i amrywiaeth Bwdhaeth, megis y ffocws ar dosturi a gwell cynhwysiant mewn Mahayana yn wahanol i'r Theravada mwy mynachaidd.

#### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae'r amrywiaeth o fewn Bwdhaeth wedi'i hachosi nid gan ddulliau medrus, ond gan nodau gwahanol, megis goleuedigaeth, tosturi a dod â therfyn i ddioddefaint?
2. I ba raddau y mae'r ddealltwriaeth o ddulliau medrus yn adlewyrchiad priodol o'r ddysgeidiaeth yn Nameg y Tŷ sy'n Llosgi?
3. A yw dealltwriaeth y Theravada o ddulliau medrus – gan lywio'r dhamma i fod yn briodol i'r gynulleidfa – yn groes i ddealltwriaeth Mahayana – bod y dhamma yn amodol ac y gellir caniatáu unrhyw ddull/pob dull medrus er mwyn cyflawni goleuedigaeth?
4. A yw'r allwedd i ddeall yr amrywiaeth o fewn Bwdhaeth i'w chael yn yr anghydfodau a'r rhaniadau o fewn Bwdhaeth o gyfnod yr ail Gyngor yn Vesali ymlaen?
5. A yw'r cysyniad o ddulliau medrus yn datblygu'r dull gweithredu empiraidd a awgrymwyd gan y Kalama Sutta a chan Ddameg y Rafft yn y Sutta Pitaka (Majjhima Nikaya 22)?

#### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Dameg y Tŷ sy'n Llosgi a'r defnydd o wahanol gyfryngau yn egluro'n llawn y gellid priodoli'r amrywiaeth o fewn Bwdhaeth i ddulliau medrus.
2. Erys tensiwn rhwng y llwybr a'r nod a ph'un a all gwahanol lwybrau arwain at yr un nod e.e. Bwdhaeth y Tir Pur a Bwdhaeth Tibetaidd.
3. O'r cychwyn cyntaf, addasodd a mabwysiadodd y Bwdha amrywiaeth o ddulliau er mwyn helpu pob bod ymdeimladol i gyflawni goleuedigaeth, ac fel yn achos Dameg y Saeth Wenwynig, mae'n bwysig bod y ffocws yn parhau ar y gyrchfan yn hytrach na'r amrywiol lwybrau.

## Bwdhaeth
## Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)

Mae Bwdhaeth Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried llwyddiant cymharol y Dalai Lama a Thich Nhat Hanh o ran sicrhau perthnasedd Bwdhaeth yn y byd modern.**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Ystyrir gan lawer mai'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yw wynebau a lleisiau allweddol Bwdhaeth, gan sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol yn y byd modern.
2. Drwy deithio'n rhyngwladol, cyfweliadau a thrwy sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch i bob math o gyfryngau modern, mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi sicrhau bod Bwdhaeth yn parhau'n berthnasol.
3. Fel awduron sawl llyfr poblogaidd i'r boblogaeth gyffredinol ar Fwdhaeth, mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi cyflwyno Bwdhaeth i gynulleidfa gyffredinol, gan gynnwys llawer o bobl ifanc.
4. Mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi rhoi llwyfan i Fwdhaeth ledled y byd mewn perthynas â materion gwleidyddol/cymdeithasol e.e. heddwch a'r amgylchedd. Nhw yw cynrychiolwyr mwyaf adnabyddus Bwdhaeth sy'n ymgysylltu â'r gymdeithas.
5. Byddai rhai yn dadlau mai dim ond bod ffurf syml a phoblogaidd iawn o Fwdhaeth - heb ddyfnder na sylwedd - yn dderbyniol yn y byd modern y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi llwyddo i'w sicrhau.
6. Dim ond lleiafrif o fewn Bwdhaeth y mae credoau'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn ei gynrychioli. Felly, nid ydynt wedi sicrhau bod Bwdhaeth yn gyffredinol yn berthnasol yn y byd modern.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn llwyddo i esbonio dulliau medrus mewn ffordd arbenigol wrth gyflwyno Bwdhaeth?
2. Ni waeth i ba raddau y maent yn cynrychioli Bwdhaeth yn gyffredinol, a yw'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn sicrhau bod Bwdhaeth yn berthnasol yn y byd modern drwy fod yn fysedd sy'n pwyntio at y lleuad?
3. Er eu bod yn cynrychioli Bwdhaeth Dibetaidd a Thien Fietnamaidd (Zen), i ba raddau y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn llwyddo i sicrhau bod elfennau Theravada neu Fwdhaeth y Tir Pur yn berthnasol yn y byd modern?
4. A ellid ystyried bod y Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn eithriadol o lwyddiannus wrth sicrhau bod Bwdhaeth yn berthnasol yn y byd modern o ganlyniad i'r ffordd y maent yn cysylltu ac yn cyfathrebu e.e. y Dalai Lama a Russell Brand, Thich Nhat Hanh ac Oprah Winfrey?
5. I ba raddau y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn denu ac yn ymgysylltu â sêr y cyfryngau yn hytrach nag eiriolwyr Bwdhaeth yn y byd modern?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Er mai dim ond eu traddodiadau Bwdhaidd eu hunain y maent yn eu cynrychioli'n llawn, mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth sicrhau bod dysgeidiaeth Bwdhaidd allweddol yn hygyrch yn y byd modern.
2. Mae byd y cyfryngau modern yn gofyn am neges syml a negesydd diddorol ac mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn darparu'r ddau ffactor hyn.
3. Mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn ffigyrau adnabyddus iawn yn y byd modern, ond nid yw hynny'n golygu bod pobl yn gwrando'n astud nac yn deall yn llawn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud am Fwdhaeth.

**Bwdhaeth**
**Thema 1: Ffigyrau crefyddol a thestunau cysegredig (rhan 2)**

Mae Bwdhaeth Thema 1 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o fynegi Bwdhaeth.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Nid yw'r Dalai Lama na Thich Nhat Hanh wedi datblygu mynegiadau newydd ac arloesol o Fwdhaeth – yn hytrach, maent wedi defnyddio dulliau medrus ac wedi addasu Bwdhaeth draddodiadol er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer y byd modern.
2. Mae Thich Nhat Hanh a'r Dalai Lama wedi chwarae rhan flaenllaw mewn Bwdhaeth sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas sy'n anelu at roi mynegiant newydd ac arloesol i Fwdhaeth.
3. Dim ond ar gyfer Bwdhaeth Dibetaidd a Thien (Zen) y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi cynnig mynegiadau newydd ac arloesol – nid Bwdhaeth Theravada, Bwdhaeth y Tir Pur na Bwdhaeth Nichiren.
4. Dim ond ar gyfer rhan fach iawn o Fwdhaeth y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi datblygu mynegiadau newydd ac arloesol e.e. ymwybyddiaeth ofalgar, myfyrio, chwilio am hapusrwydd.
5. Yn syml, mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi cyflwyno mynegiadau Bwdhaeth traddodiadol i fyd modern nad yw wedi clywed amdanynt o'r blaen. Maent yn ymddangos yn newydd ac yn arloesol ond mewn gwirionedd, nid ydynt yn newydd nac yn arloesol.
6. Er mwyn cyflwyno mynegiadau newydd ac arloesol o Fwdhaeth, rhaid deall o'r newydd beth sy'n allweddol i Fwdhaeth. Drwy eu dealltwriaeth o garedigrwydd, tosturi a pheidio ag achosi niwed, mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi cyflawni hyn.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Yn hytrach na mynegiadau newydd ac arloesol o Fwdhaeth, ai dim ond mynegiad wedi'i symleiddio'n sylweddol o Fwdhaeth y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi'i gyflwyno i'r boblogaeth gyffredinol?
2. Ond drwy sicrhau bod neges Bwdhaeth yn hygyrch i'r gynulleidfa fyd-eang ehangaf bosibl, onid yw'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn ddiau wedi cyflwyno mynegiad newydd ac arloesol o Fwdhaeth?
3. A oes rhannau gwirioneddol Fwdhaidd yn yr hyn y mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi'i ysgrifennu a'i ddweud o ran pwysigrwydd gwenu, cerdded a bod yn garedig?
4. A geir mynegiadau newydd ac arloesol o Fwdhaeth mewn mannau eraill - nid o ran yr hyn sydd gan unigolion i'w ddweud, ond gan fudiadau fel Bwdhaeth sy'n Ymgysylltu â'r Gymdeithas?
5. A ddylid gwahanu'r ddau ffigur o ran yr hyn y maent wedi'i gyflawni a rhoi'r wobr gyntaf o bell ffordd i'r Dalai Lama sydd, er enghraifft, wedi sefydlu Sefydliad y Meddwl a Bywyd, sef mynegiad newydd ac arloesol o Fwdhaeth, ac sy'n arweinydd de facto ar Fwdhyddion Tibetaidd nifer o ysgolion?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn gyfathrebwyr effeithiol ym maes Bwdhaeth, ond nid oes ganddynt unrhyw beth newydd nac arloesol i'w addysgu.
2. Mae'r symudiad o syniadau haniaethol a metaffisegol megis karma, aileni ac hyd yn oed goleuedigaeth, tuag at garedigrwydd, tosturi a pheidio ag achosi niwed yn fynegiad newydd ac arloesol o Fwdhaeth ac mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh yn gyfrifol am hynny.
3. Yn syml, mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh wedi parhau i ddefnyddio dulliau medrus ac i ddarparu mwy o fysedd sy'n pwyntio at y lleuad.

## Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried i ba raddau y mae Bwdhaeth Japaneaidd yn unigryw.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Bwdhaeth Japaneaidd yn unigryw yn rhannol oherwydd dylanwad Daoaeth a Chonffiwsianaeth ar ffurfiau Japaneaidd a allforiwyd i Japan, a dylanwad Shinto ar ddatblygiad Bwdhaeth yn Japan. Mae hefyd yn unigryw o ganlyniad i'r ffordd y cafodd ei halinio â gwahanol rannau o'r gymdeithas yn Japan imperialaidd e.e. Tendai, Shingon ac wedyn Tir Pur, Nichiren a Zen.
2. Mae Bwdhaeth Japaneaidd yn unigryw gan ei bod yn anelu at sicrhau bod Bwdhaeth yn anelu at bawb heb ddibynnu ar y sangha mynachaidd h.y. poblyddiaeth y Tir Pur, Nichiren a Soto Zen.
3. Er bod gan Fwdhaeth Japaneaidd rai agweddau unigryw, gellir ystyried bod y rhan fwyaf o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion yn debyg i Fwdhaeth mewn gwledydd eraill e.e. llafarganu mantrâu, mathau penodol o fyfyrio, bodhisattvas ac ati.
4. Mae Bwdhaeth y Tir Pur Japaneaidd yn unigryw oherwydd ei phwyslais ar Bŵer Arall ar wahân i Hunan-Bŵer a'i chred mewn Bwdha Amida/Amitabha y gellir galw arno am help ac am ailenedigaeth yn y Tir Pur.
5. Mae Bwdhaeth Nichiren Japaneaidd yn unigryw gan ei bod yn canolbwyntio ar un testun - Sutra'r Lotus - yn hytrach nag ar amrywiaeth o blith y testunau a'r ffynonellau doethineb Bwdhaidd eraill sydd ar gael.
6. Mae Bwdhaeth Zen Japaneaidd yn unigryw gan ei bod o blaid y posibilrwydd o gyflawni goleuedigaeth (satori) ar unwaith drwy neidio i ddealltwriaeth reddfol o realiti.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae derbyniad Bwdhaeth i ddiwylliant Japan yn fwy neu'n llai unigryw, er enghraifft, na derbyniad Bwdhaeth i ddiwylliant Tibet a'r ffordd y mae wedi amsugno Bon?
2. A yw rhai agweddau ar Fwdhaeth Japaneaidd – megis y Tir Pur ac adrodd y Nembutsu – yn agweddau sy'n amlwg yn Fwdhaidd?
3. I ba raddau y mae Bwdhaeth Nichiren yn unigryw o ystyried ei ffocws, nid yn unig ar y Bwdha neu ar Bodhisattva, ond ar y Moji-mandala gohonzon sy'n cynnwys y daimoku?
4. I ba raddau y mae Bwdhaeth Zen yn unigryw yn yr ystyr ei bod yn rhoi pwyslais llwyr, fwy neu lai, ar fyfyrio? Mae mynachod a lleianod Zen yn treulio nifer sylweddol o oriau bob dydd yn myfyrio. Er bod mathau eraill o Fwdhyddion hefyd yn myfyrio, nid ydynt yn gwneud hynny i'r un graddau â Bwdhyddion Zen.
5. A yw hanfodion Bwdhaeth Japaneaidd yn debyg iawn i fynegiadau eraill o Fwdhaeth fel y gwelir drwy'r daibutsu niferus a adeiladwyd yn Japan ers y 7fed ganrif?

## Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Bwdhaeth Japaneaidd yn unigryw gan fod rhaniad amlwg rhwng y gwahanol ysgolion Bwdhaidd nas ceir ym mhob man.
2. Mae'r tair ffurf ar Fwdhaeth – y Tir Pur, Nichiren a Zen – yn cynnwys elfennau o gredoau, dysgeidiaethau ac arfer Bwdhaidd nodweddiadol.
3. Yn fwy nag unrhyw ffurf arall ar Fwdhaeth, mae'r Tir Pur a Nichiren yn unigryw gan eu bod yn anelu at sicrhau bod y llwybr at oleuedigaeth yn syml, yn glir ac yn gwbl hygyrch i bawb.
4. Mae pob ffurf Japaneaidd ar Fwdhaeth yn olrhain eu gwreiddiau athronyddol i Nagarjuna, a ddisgrifir weithiau fel yr ail Fwdha.

## Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried pwysigrwydd koan, nembutsu a daimoku fel ffyrdd o fynegi dysgeidiaethau Bwdhaidd.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae'r koan (Zen), nembutsu (y Tir Pur) a daimoku (Nichiren) gyda'i gilydd yn fynegiadau dilys o Fwdhaeth Japaneaidd a gellir ystyried o ran ekayana (un llwybr/cyfrwng) one path/vehicle) eu bod oll yn anelu at oleuedigaeth.
2. Mae'r koan yn fynegiad pwysig o ddysgeidiaeth Fwdhaidd gan ei fod yn galluogi'r meddwl i neidio i ddealltwriaeth reddfol o realiti ac felly gyflawni satori (goleuedigaeth).
3. Mae'r nembutsu yn fynegiad pwysig o ddysgeidiaeth Fwdhaidd gan ei fod yn galluogi'r unigolyn i gael ei aileni yn y Tir Pur lle y gellir cyflawni goleuedigaeth neu Fwdholiaeth, sy'n golygu y gellir helpu bodau ymdeimladol eraill i gyflawni goleuedigaeth.
4. Mae'r daimoku yn fynegiad pwysig o ddysgeidiaeth Fwdhaidd gan ei fod yn galluogi unigolyn i gael noddfa yn Sutra'r Lotus a ystyrir yn Nichiren fel diweddbwynt dysgeidiaeth Fwdhaidd a'r un yana. Gall llafarganu helpu i gyflawni goleuedigaeth.
5. Nid yw'r koan, y nembutsu na'r daimoku yn fynegiadau o ddysgeidiaethau Bwdhaidd gan eu bod yn anelu at gyflawni goleuedigaeth mewn ffyrdd haws na'r rheini a gaiff eu harfer gan y Bwdha neu'r Theravada: gan ddilyn y dasa sila a'r Llwybr Wythplyg Nobl neu gyflawni'r paramitas a llwybr Bodhisattva Mahayana.
6. Ymddengys fod y koan, y nembutsu a'r daimoku yn eu ffordd unigol yn mynd yn groes i ddywediad terfynol y Bwdha y dylid cyflawni perffeithrwydd drwy ddiwydrwydd a hunanddisgyblaeth bersonol. Ymddengys fod y nembutsu, er enghraifft, yn dibynnu ar bŵer allanol – sef pŵer Bwdha Amida.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae'r koan, y nembutsu a'r daimokudaimoku yn fynegiadau pellach a dilys o ddulliau medrus mewn Bwdhaeth?
2. I ba raddau y mae'r nembutsu a'r daimokudaimoku yn adlewyrchu'r traddodiad a ffefrir gan Fwdhyddion o adrodd mantrâu er mwyn cyflawni punna?
3. A ellid ystyried y koan - os caiff ei gysylltu â zazen - yn syml fel ymdrech bellach i fireinio proses myfyrio samatha a vipassana wrth gynnig dealltwriaeth o realiti i unigolyn?
4. Ai dim ond yn erbyn cefndir Bwdhyddion heddiw sy'n byw yn oes mappo ac felly sy'n chwilio am arfer hawdd er mwyn cyflawni goleuedigaeth y gellir deall y koan, y nembutsu a'r daimoku yn llawn?
5. Ai tystiolaeth syml o'r ffordd yr oedd syncretiaeth (uno neu geisio uno gwahanol grefyddau/diwylliannau/ysgolion meddwl) yn gweithio pan ledaenodd Bwdhaeth y tu allan i India yw'r koan, y nembutsu a'r daimoku?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r koan, y nembutsu a'r daimoku oll yn fynegiadau dilys o ddysgeidiaethau Bwdhaidd gan eu bod yn canolbwyntio ar gydnabod cyflwr diffygiol presennol yr unigolyn a cheisio llwybr tuag at oleuedigaeth.
2. Mae'r koan, y nembutsu a'r daimoku yn wahanol iawn i unrhyw beth a ddysgwyd gan y Bwdha hanesyddol ac nid oes cysylltiad cryf rhyngddynt â dysgeidiaethau Bwdhaidd.
3. Mae'r koan, y nembutsu a'r daimoku oll yn fynegiadau dilys o ddysgeidiaethau Bwdhaidd Mahayana sy'n canolbwyntio ar sunyata, dulliau medrus ac ekayana fel y'u ceir yn Sutra'r Lotus.

## Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y ceir cydberthynas agos rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth.**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gellir dangos bod cydberthynas agos rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth drwy'r ffaith y gellir deall bod Bwdhaeth yn seiliedig ar ddata empiraidd yn hytrach na ffydd ddall fel yr eglurir gan y Kalama Sutta.
2. Gellir gweld y gydberthynas hon hefyd yn y buddiannau gwyddonol y profwyd eu bod yn gysylltiedig â myfyrio.
3. Ystyriwyd bod dysgeidiaethau mewn perthynas â sunyata sy'n nodi mai ffurf yw gwactod a gwactod yw ffurf, ac i anicca nad oes unrhyw beth yn barhaol yn gwbl gydnaws â gwaith ymchwil i ffiseg is-atomig.
4. I'r gwrthwyneb, mae'r gydberthynas agos yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddethol o Fwdhaeth. Mae safbwyntiau byd-eang Bwdhyddion Asiaidd sy'n cynnwys amrywiaeth o fodau a theyrnasoedd dibenion yn gwrth-ddweud hyn.
5. Mae Bwdhaeth yn hanu o oes cyn-wyddonol â dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r hyn a ddeellir gan wyddoniaeth heddiw. Felly, ni ellir bod cydberthynas agos.
6. Ceir 'cred' a 'ffydd' ofynnol i bob Bwdhydd mewn perthynas â goleuedigaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth wyddonol ar gyfer hynny.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae'r diffyg gofyniad cyffredinol am gred credoaidd mewn Bwdhaeth y tu allan i'r tair noddfa sy'n awgrymu bod ganddi gydberthynas agos â gwyddoniaeth?
2. A ellid dadlau bod athrawiaeth pratitya-samutpada – dechreuad dibynnol – yn darparu tystiolaeth gryf o gydberthynas agos iawn rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth?
3. I ba raddau y gellid dadlau bod Sefydliad y Meddwl a Bywyd y Dalai Lama a'i anogaeth i niwrowyddoniaeth yn awgrymu bod cydberthynas agos rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth?
4. Ai'r diffyg cred mewn Duw fel creawdwr sy'n arwain pobl i gredu – yn wahanol i grefyddau eraill y byd – bod cydberthynas agos rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth?
5. A ellid dadlau bod y cysyniad o anatta yn atgyfnerthu'r gydberthynas rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth gan fod gwyddoniaeth yn gyffredinol yn derbyn y cysyniad mai dim ond lluniad ieithyddol yw'r 'hunan'?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r gydberthynas agos rhwng Bwdhaeth a gwyddoniaeth yn fwy amlwg na real.
2. Mae Bwdhaeth yn unigryw o gymharu â rhai o grefyddau eraill y byd gan nad yw wedi cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau i ddarganfyddiadau neu waith ymchwil gwyddonol.
3. Mae rhai agweddau penodol ar Fwdhaeth yn arwyddocaol iawn o ran ei chydberthynas agos â gwyddoniaeth, yn arbennig myfyrio/ymwybyddiaeth ofalgar a gweithrediad yr ymennydd.

## Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried ffyrdd nad yw Bwdhaeth yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Nid yw rhai safbwyntiau Bwdhaidd byd-eang sy'n cynnwys amrywiaeth o fodau a theyrnasoedd dibenion yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang.
2. Mae testunau Bwdhaidd allweddol megis Sutra'r Lotus a Sutra Tir Pur Sukhavati yn cyflwyno safbwyntiau byd-eang nad ydynt yn cydweddu â gwyddoniaeth.
3. Nid oes unrhyw gydweddiad rhwng y safbwynt gwyddonol byd-eang a chredoau Bwdhaidd allweddol megis aileni a kamma.
4. I'r gwrthwyneb, mae'r dull pragmataidd a geir yn y Kalama Sutta yn cyflwyno geiriau gan y Bwdha ei hun yn annog yr hyn a gaiff ei ystyried bellach yn safbwynt gwyddonol byd-eang.
5. Mae gan arferion Bwdhaidd fel samatha effaith seicolegol a ffisiolegol amlwg ac fel y cyfryw, maent yn cydweddu'n llwyr â'r gwaith ymchwil empiraidd sy'n ofynnol gan safbwynt gwyddonol byd-eang.
6. Mae Bwdhaeth yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang fel y gwelir gan y ffaith bod y Dalai Lama yn annog gwyddoniaeth a'i benderfyniad i sefydlu Sefydliad y Meddwl a Bywyd.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Er nad ymddengys o bosibl bod Theravada yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang, a ellir dweud yr un peth am Fwdhaeth y Tir Pur sy'n credu bod Amida yn ymddangos adeg marwolaeth, mynediad i Dir Pur ac ati?
2. A yw'r diffyg cyffredinol o ran gwyrthiau goruwchnaturiol ym mywyd y Bwdha hanesyddol yn nodi ei fod yn cydweddu â gwyddoniaeth? Yn ôl y Majjhima Nikāya, gall gyflawni gwyrthiau goruwchnaturiol, ond mae'n eu 'casáu' ac yn annog ei ddilynwyr i beidio ag ymgymryd â gwyrthiau o'r fath fel arddangosiadau ofer.
3. Os yw safbwynt gwyddonol byd-eang yn dibynnu ar waith ymchwil empiraidd, yna a ellid dadlau bod Bwdhaeth yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang o ystyried yr hyn a addysgir yn y Kalama Sutta?
4. A ellid dadlau er bod Bwdhaeth athronyddol o bosibl yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang, nad yw hyn yn cyfateb i Fwdhaeth fel y'i deellir yn gyffredinol gan y rhan fwyaf o'i hymarferwyr?
5. Er y dadleuir bod gan ddulliau myfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar Fwdhaidd effeithiau gwyddonol y gellir eu mesur, i ba raddau y mae canfyddiadau o'r fath yn gymharol ddi-sail a di-brawf o hyd?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Dylid ystyried bod Bwdhaeth yn seiliedig ar system gred/ffydd nad yw'n cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang.
2. Rhaid cydnabod bod llawer o 'Fwdhaethau' ac er bod rhai yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang, nid yw eraill.  Gellir darllen y chwe theyrnas dibenion mewn modd 'seicolegol' (ac mae'n gyffredin i unigolion o'r gorllewin sydd wedi troi at Fwdhaeth wneud hynny).
3. Yn y bôn, nid yw Bwdhaeth yn cydweddu â safbwynt gwyddonol byd-eang gan nad oes ganddo unrhyw ymateb penodol i'r cwestiwn sylfaenol sy'n ymwneud â dechreuad y bydysawd sy'n golygu derbyn Damcaniaeth y Glec Fawr, fel y mae'r rhan fwyaf o wyddonwyr wedi gwneud.

## Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried dilysrwydd portreadau Gorllewinol o Fwdhaeth fel crefydd ddi-ffydd a seciwlar.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae cyflwyno Bwdhaeth fel crefydd ddi-ffydd a seciwlar yn ddilys o ystyried nad oes unrhyw gred mewn Duw fel creawdwr cyffredinol.
2. Gellir ystyried dysgeidiaeth hanfodol Bwdhaeth fel y'i ceir yn y tri lakshanas a'r llwybr Wythplyg Nobl fel di-ffydd a seciwlar gan nad oes unrhyw sôn o gwbl am Dduw.
3. Mae cyflwyno Bwdhaeth fel crefydd ddi-ffydd a seciwlar yn gwbl gyson â'r ddysgeidiaeth a geir yn y Kalama Sutta.
4. Er y gellid ystyried dysgeidiaeth y Bwdha hanesyddol fel dysgeidiaeth ddi-ffydd a seciwlar, addysgodd hefyd y cysyniad o karma yn arwain at aileni. Mae'r cysyniad o aileni yn gofyn am fetaffiseg grefyddol.
5. Ni ellir disgrifio Bwdhaeth y Tir Pur yn arbennig â'i dibyniaeth ar gyfryngau allanol a phŵer Bwdha Amida/Amitabha fel di-ffydd na seciwlar.
6. Dim ond Bwdhaeth athronyddol allai gynnwys elfennau o anffyddiaeth a seciwlariaeth amlwg. Fel y caiff ei harfer gan y rhan fwyaf o Fwdhyddion, mae'n cynnwys holl nodweddion amlwg unrhyw un o grefyddau eraill y byd. Nid yw dameg y Saeth Wenwynig yn rhoi atebion negyddol i gwestiynau metaffisegol (h.y. nid yw'n dweud nad oes Duw). Yn syml, mae'n datgan nad yw'r cwestiynau hynny yn werth eu gofyn.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae'r ffordd y mae Batchelor yn cyflwyno Bwdhaeth fel crefydd ddi-ffydd a seciwlar yn ffordd gywir o gyflwyno Bwdhaeth?
2. A ellid ystyried Sutra'r Galon â'i ddysgeidiaeth nad oes unrhyw beth yn cynnwys bodolaeth gynhenid ac mai ffurf yw gwactod a gwactod yw ffurf fel di-ffydd a seciwlar?
3. I ba raddau y mae'r cysyniad o anicca yn ddi-ffydd a seciwlar, gan ei fod yn rhesymegol yn rhagflaenu bodolaeth unrhyw dduwdod sefydlog a thragwyddol?
4. A yw cyflwyniadau Gorllewinol o Fwdhaeth wedi gwyro Bwdhaeth er mwyn gallu ei gosod o fewn sbectrwm di-ffydd a seciwlar?
5. A ellid dadlau ar ei ffurf wreiddiol, fod Bwdhaeth yn gwbl ddi-ffydd a seciwlar ond dros amser ac er mwyn gwahaniaethu rhyngddi a Jainiaeth a Hindŵaeth, ei bod wedi ymgorffori nodweddion crefydd? I'r gwrthwyneb, gellid dadlau bod Bwdhaeth yn grefyddol, ond er mwyn apelio i'r gorllewin y bu'n rhaid ei hailbecynnu fel rhywbeth rhesymegol?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Batchelor yn cyflwyno dadl ddilys nad oes angen unrhyw ychwanegiadau crefyddol ar Fwdhaeth a'i bod, yn y bôn, yn ddi-ffydd ac yn seciwlar.
2. Mae cyflwyniadau o Fwdhaeth fel di-ffydd a seciwlar yn ddilys ar yr amod y sylweddolir eu bod fel bysedd sy'n pwyntio at y lleuad.
3. Nid oes angen ffydd nac ymrwymiad tangnefeddus (sraddha) ar Fwdhaeth mewn perthynas â phethau y tu allan i deyrnas dibenion empiraidd, megis bodhisattvas. Ni ellir ystyried bod hyn yn ddi-ffydd nac yn seciwlar.

**Thema 2: Datblygiadau hanesyddol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol**

Mae Bwdhaeth Thema 2 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso

**Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried p'un a yw Bwdhaeth yn grefydd.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae holl nodweddion Bwdhaeth yn cyflwyno saith dimensiwn crefydd Smart: ymarferol a defodol, profiadol ac emosiynol, naratif neu fythegol, athrawiaethol ac athronyddol, moesegol a chyfreithiol, cymdeithasol a sefydliadol, perthnasol.
2. Yn ddiau, mae bodolaeth post mortem yn gysyniad cwbl grefyddol. Mae Bwdhaeth yn addysgu samsara ac aileni yn glir gan nodi mai crefydd ydyw.
3. Ac eithrio rhai Bwdhyddion o'r Gorllewin sydd wedi troi at Fwdhaeth, mae'r mwyafrif helaeth o Fwdhyddion o'r farn mai crefydd yw Bwdhaeth sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywyd ysbrydol. Nid ar chwarae bach y gellir anwybyddu'r cadarnhad hwn gan ymarferwyr Bwdhaeth mai crefydd ydyw.
4. Nodwedd ddiffiniol crefydd yw cred mewn Duw hollalluog fel creawdwr. Nid yw Bwdhaeth yn arddel cred o'r fath.
5. Yn gyffredinol, mae crefydd yn ymwneud â bodolaeth ontolegol yr unigolyn sy'n gysylltiedig ag enaid anfarwol a grëwyd gan Dduw ac sy'n anelu at fywyd tragwyddol. Nid yw hyn yn berthnasol o gwbl i Fwdhaeth sy'n dangos nad yw'n grefydd.
6. Mae crefyddau yn addysgu bod ymddygiad unigolyn yn cael ei farnu gan Dduw sydd yn ei dro yn gwneud penderfyniad o ran sut i'w wobrwyo a'i gosbi. I'r gwrthwyneb mewn Bwdhaeth, mae karma a samsara yn addysgu mai'r unigolyn sy'n gwbl gyfrifol am hyn.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A ellid dadlau bod p'un a yw Bwdhaeth yn grefydd ai peidio yn gysylltiedig ag un o'r avyakata gan fod y Bwdha wedi gwrthod datgan p'un a yw'r byd yn dragwyddol ai peidio?
2. Os yw holl nodweddion allweddol Bwdhaeth yn awgrymu ei bod yn grefydd, yna onid yw hynny'n golygu mai crefydd ydyw?
3. A yw'r cwestiwn hwn yn peri problem o ran defnyddio 'Bwdhaeth' yn ei ffurf unigol o ystyried mewn gwirionedd mai lluniad Gorllewinol ydyw sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o 'Fwdhaethau' y mae rhai ohonynt yn grefyddol ac nad yw rhai ohonynt yn grefyddol?
4. I ba raddau y gellid ystyried bod yr arfer Bwdhaidd o geisio noddfa yn arfer crefyddol gan fod Bwdhyddion yn edrych y tu allan iddyn nhw eu hunain am gysur, sicrwydd a gobaith?
5. I ba raddau y gellid dadlau y caiff y Bwdha ei hun ei ystyried a'i drin yn union yr un fath mewn puja, ag y caiff Duw ei ystyried a'i drin mewn crefyddau eraill?

**Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:**

1. Dim ond oherwydd dylanwad dyneiddiaeth seciwlar Gorllewinol y codwyd p'un a yw Bwdhaeth yn grefydd ai peidio.
2. Dim ond o ganlyniad i'r ffaith ei bod yn cystadlu â systemau ffydd eraill mewn mannau lle yr ymsefydlodd y daeth Bwdhaeth yn 'grefydd' dros amser.
3. Mae trikaya (tri 'chorff' y Bwdha) a chred yn Bwdha Vairocana fel y Bwdha gwreiddiol yn cyfleu popeth y mae crefydd yn ei addysgu am Dduw hollalluog, hollwybodus a hollraslon.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried i ba raddau y mae parodrwydd Bwdhaeth i fod yn agored yn golygu bod perygl y gallai golli ei hunaniaeth.**

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae hanes Bwdhaeth yn ymwneud â syncretiaeth yn yr ystyr ei bod bob amser wedi mabwysiadu, addasu ac amsugno systemau cred eraill y daw i gysylltiad â nhw e.e. Bon yn Nhibet.
2. Yn gynyddol, mae Bwdhaeth wedi dod yn derm ymbarél eang sy'n cwmpasu cymaint o amrywiolion cred fel bod perygl y caiff ei hunaniaeth ei cholli.
3. Gellir ystyried Bwdhaeth – yn arbennig yn y Gorllewin – fel crefydd nad yw'n neilltuolaidd sy'n golygu y gallai pobl sy'n arddel ffydd wahanol ystyried eu hunain yn lled-Fwdhaidd heb ymrwymo i gysyniadau Bwdhaidd allweddol.
4. Mae Dameg y Tŷ sy'n Llosgi, y cysyniad o ekayana a'r cydweddiad o fysedd yn pwyntio tuag at y lleuad yn awgrymu y bydd hunaniaeth Bwdhaeth bob amser yn parhau'n gyflawn o ran ei ffocws ar dosturi a goleuedigaeth.
5. Nid oes perygl y bydd Bwdhaeth yn colli ei hunaniaeth gan ei bod yn cynnal ei chydlyniad drwy'r noddfeydd: y Bwdha, y dhamma a'r sangha.
6. Byddai llawer o Fwdhyddion yn derbyn mai dim ond am ei fod yn cynnig y posibilrwydd o ddysgu beth sy'n dda am grefyddau eraill y gall parodrwydd i fod yn agored fod o fudd – fel y nodir yng Nghyhoeddeb y Graig Rhif 12 Ymerawdwr Ashoka - er mwyn gallu cyfnewid syniadau.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Os yw gwreiddiau Bwdhaeth yn gysylltiedig â'r Bwdha hanesyddol a'i bod wedi gwarchod mewn testunau cysegredig a ffynonellau doethineb neu awdurdod, a yw hyn yn golygu na all fod perygl y bydd yn colli ei hunaniaeth?
2. A yw'r broblem sy'n gysylltiedig â hunaniaeth Bwdhaeth yn ymwneud mwy â'r ffordd y gallai ymddangos fod traddodiadau Bwdhaidd gwahanol yn mynd yn groes i'w gilydd yn hytrach na'i pharodrwydd i fod yn agored?
3. A ellid dadlau – gan ddefnyddio Dameg y Rafft (Majjhima Nikaya 22) - nad yw Bwdhaeth yn ceisio sicrhau 'hunaniaeth' fel y cyfryw gan mai dim ond un dull o gyflawni nod terfynol ydyw ymhlith llawer o ddulliau gwahanol?
4. A ellid dadlau, o fewn cymdeithas aml-ffydd a phlwralaidd, fod arweinwyr Bwdhaidd yn amharod i ddatgan unrhyw ffiniau clir rhwng Bwdhaeth a systemau cred eraill, a bod hyn yn golygu bod perygl y bydd yn colli ei hunaniaeth?
5. I ba raddau y gellid dadlau nad yw hyn yn broblem o gwbl, gan nad yw Bwdhaeth i ryw raddau yn ddigon agored i ddylanwadau allanol ond ei bod yn hytrach yn ceisio gwarchod hunaniaeth geidwadol sydd wedi dyddio?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Os diffinnir parodrwydd i fod yn agored fel diffyg cyfyngiadau a hygyrchedd, yna ni all hyn byth gael effaith andwyol ar hunaniaeth Bwdhaeth gan mai dyma y mae Bwdhaeth yn anelu ato.
2. Parodrwydd Bwdhaeth i dderbyn dylanwadau allanol yw'r union beth sydd wedi sicrhau ei bod mor llwyddiannus wrth symud o India i weddill y byd.
3. Drwy fod mor agored, mae Bwdhaeth yn colli ei hunaniaeth ac yn dod yn ddiafael ac yn lliniarol wrth addysgu cyffredinoldebau ynghylch tosturi a myfyrio.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried gwerth profiad o'i gymharu â ffynonellau posibl eraill o awdurdod mewn Bwdhaeth.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae'r Kalama Sutta yn annog pob unigolyn i weithredu mewn ffordd chwilgar, pragmataidd ac empiraidd mewn perthynas â Bwdhaeth nad yw'n gofyn am, nac yn dibynnu ar, unrhyw ffynhonnell o awdurdod ac eithrio profiad personol.
2. Mae profiad yn bwysicach na phob ffynhonnell bosibl o awdurdod mewn Bwdhaeth gan fod yn rhaid i bob unigolyn ddangos ei ddiwydrwydd ei hun, dilyn ei lwybr ei hun ac yn y pen draw, ddarparu noddfa ar ei gyfer ei hun. Profiad y Bwdha hanesyddol ei hun a lywiodd ei ymdrech i ddod o hyd i'r Deffroad a chyflawni'r cyflwr.
3. Mae gwerth cael gwared ar eich dosa (casineb), lobha (trachwant) a moha (rhithdyb/anwybodaeth) eich hun drwy brofiad personol yn llawer mwy gwerthfawr nag unrhyw ffynhonnell bosibl arall o awdurdod mewn Bwdhaeth. Geiriau olaf y Bwdha oedd "Gwelwch, o fynachod, dyma fy nghyngor olaf i chi. Mae holl gydrannau'r byd yn gyfnewidiol. Nid ydynt yn barhaus. Gweithiwch yn galed i sicrhau eich iachawdwriaeth eich hun."
4. Dim ond profiad sy'n rhoi dealltwriaeth i unigolyn o'r heriau sy'n gysylltiedig â dulliau medrus a dyma sy'n cynnig yr awdurdod mwyaf i Fwdhyddion.
5. Efallai bod rhai Bwdhyddion o'r farn mai testunau cysegredig sy'n meddu ar yr awdurdod terfynol gan mai dim ond arweiniad cyfyngedig y gall profiad personol ei gynnig nad yw'n cynnwys dyfnder, dealltwriaeth nac arbenigedd.
6. Gallai rhai Bwdhyddion ddadlau fod gan hyfforddwr – boed yn uwch fynach neu leian, lama neu feistr Zen – lawer mwy o awdurdod na phrofiad personol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A ddylai Bwdhyddion ddilyn esiampl y Bwdha a dreuliodd ei flynyddoedd ffurfiannol yn gwrthod awdurdod safonol ac yn canolbwyntio ar brofiad personol?
2. A ellid dadlau mai cyfyngedig yw gwerth ffynonellau posibl o awdurdod mewn Bwdhaeth gan mai dim ond rhan o'r llu o fysedd sy'n pwyntio at y lleuad ydynt a allai helpu ond a allai hefyd atal ymdrechion?
3. Ai dim ond profiad personol sy'n werthfawr gan mai dim ond gwerth amodol sy'n gysylltiedig â phob math arall o awdurdod - fel y ceir mewn testunau cysegredig?
4. A ellid dweud nad yw profiad personol ar ei ben ei hun yn ddigonol a bod bob amser angen arweiniad o ffynonellau eraill o awdurdod?
5. I ba raddau y gellid dweud mai dim ond ffynonellau amodol yw unrhyw ffynonellau o awdurdod mewn Bwdhaeth gan mai'r hyn sydd ei angen yn y pen draw yw i'r unigolyn eu cymhwyso a'u haddasu drwy ei fywyd yn seiliedig ar ei brofiad personol ei hun?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Nid yw Bwdhaeth yn seiliedig ar athrawiaethau awdurdodol am yr hyn y dylid neu na ddylid ei wneud neu ei gredu, ond yn hytrach ar annog yr unigolyn i ddarganfod hyn oll drosto'i hun.
2. Dylai fod gan ddoethineb ymarferwyr Bwdhaidd fwy o awdurdod gan mai nhw all dywys a chyfeirio profiad personol.
3. Mae'n ideolegol ac yn afrealistig awgrymu y dylai fod gan brofiad personol fwy o werth na ffynonellau pwysig a chydnabyddedig o ddoethineb ac awdurdod.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried natur unigryw Bwdhaeth Brydeinig o gymharu â Bwdhaeth a geir mewn gwledydd eraill.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Bwdhaeth Brydeinig yn unigryw gan ei bod, fel crefydd leiafrifol (cyfrifiad 2011 - 0.4% o'r boblogaeth) yn ceisio gosod Bwdhaeth o fewn cyd-destun Prydeinig y gellid ei ystyried yn Gristnogol (cyfrifiad 2011 - 58.8% o'r boblogaeth).
2. Er y gellid dweud bod gan Fwdhyddion Prydeinig sydd wedi troi at Fwdhaeth natur unigryw megis Triratna, ni ellir dweud yr un peth am Fwdhyddion Prydeinig 'etifeddol' megis Amaravati neu ganolfan Nichiren Ryngwladol Soka Gakkai yn Taplow.
3. Mae Bwdhyddion Prydeinig sydd wedi troi at Fwdhaeth ac sy'n mynegi eu hunain yn Triratna yn unigryw gan eu bod i raddau helaeth yn gwrthod cysyniad y sangha mynachaidd, maent yn llafarganu yn Saesneg, a chyflwynir y dhamma ar ffurf symlach a hygyrch.
4. Mae Bwdhyddion Prydeinig sydd wedi troi at Fwdhaeth yn unigryw gan eu bod yn cynnwys cefnogwyr a dilynwyr Bwdhaeth seciwlar/di-ffydd fel Stephen Batchelor na fyddai'n cael eu hystyried fel Bwdhyddion go iawn mewn gwledydd eraill.
5. Efallai nad yw rhai mathau o Fwdhaeth ym Mhrydain yn 'unigryw' gan eu bod yn ymdrechu'n galed i ddyblygu'r holl ffurfiau a seremonïau Asiaidd megis Mynachlog Amaravati – a Chymdeithas Zen Ryngwladol y DU.
6. Mae Bwdhyddion Prydeinig yn unigryw gan fod yn rhaid iddynt fynegi eu hunain i raddau helaeth ymhlith pobl leyg o ystyried nad oes llawer o viharas, temlau Bwdhaidd na mynachlogydd yn y DU.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae Bwdhaeth Brydeinig yn debyg i Fwdhaeth mewn gwledydd eraill yng Ngorllewin Ewrop sydd hefyd yn cynnwys cymysgedd o Fwdhyddion 'etifeddol' a Bwdhyddion sydd wedi troi at Fwdhaeth?
2. I ba raddau y gellid ystyried bod Bwdhaeth Brydeinig yn unigryw o gymharu â rhai rhannau eraill o'r byd Bwdhaidd, o ystyried ei bod yn gwbl egilataraidd, a bod gan ferched yr un statws â dynion?
3. A yw'n werth nodi'r gwahaniaeth y mae rhai grwpiau o Fwdhyddion yn ei nodi eu hunain o ran 'Bwdhaeth Brydeinig a Bwdhaeth ym Mhrydain'? Cyfeirir at triratna fel math o Fwdhaeth Brydeinig, ond ystyrir mai Bwdhaeth Sri-Lankaidd yw Vihara Bwdhaidd Llundain ym Mhrydain.
4. A ellid dadlau bod Bwdhaeth Brydeinig yn unigryw o gymharu â Bwdhaeth mewn gwledydd eraill, gan fod yn rhaid iddi fodoli ochr yn ochr â seciwlareiddiaeth gynyddol a nifer gynyddol o Ddyneiddwyr?
5. A ellid dweud nad yw Bwdhaeth Brydeinig yn fwy nac yn llai unigryw na'r Fwdhaeth a geir mewn gwledydd eraill gan fod Bwdhaeth bob amser yn addasu ei hun i gyd-destun y wlad lle y'i ceir?

## Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. O ystyried o fewn Bwdhaeth Brydeinig 'etifeddol y caiff credoau, dysgeidiaethau ac arferion Bwdhaidd eu gwarchod ar y cyfan, ni ellir ei hystyried yn unigryw.
2. Yn hanesyddol, dim ond yn ddiweddar iawn y dechreuodd unigolion Prydeinig droi at Fwdhaeth ac felly mae Bwdhyddion Prydeinig sydd wedi troi at Fwdhaeth wrthi'n sefydlu eu hunaniaeth unigryw eu hunain.
3. Mae Bwdhaeth Brydeinig yn unigryw gan fod ei natur yn cael ei ffurfio gan ffactorau newydd sy'n amrywio o seciwlariaeth i'r mudiad gwyrdd, o gydraddoldeb rhwng y rhywiau i hawliau i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar (LGBTQ).

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pedwerydd pwynt bwled yw ystyried dilysrwydd cymharol 'troi' at Fwdhaeth ac 'etifeddu' Bwdhaeth.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Rhaid gwrthod y mater a nodir uchod gan fod pob math o Fwdhaeth yn ddilys pan fydd yn ymroi hyd yn oed ar y lefel fwyaf gyffredinol i ddaliadau'r Bwdha.
2. Mae'n bosibl nad yw 'troi' at Fwdhaeth yr un mor ddilys ag 'etifeddu' Bwdhaeth gan mai Saesneg yw iaith cyfarwyddyd y dhamma a thrwy gyfieithu, bod termau allweddol ond cymhleth fel 'anicca' wedi'u symleiddio.
3. Er y gellir gwarchod yr amrywiaeth ehangaf o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion wrth 'etifeddu' Bwdhaeth, dim ond amrywiaeth wedi'i symleiddio a'i chrynhoi sy'n bosibl wrth 'droi' at Fwdhaeth.
4. Nid oes gan Fwdhyddion sydd wedi 'troi' at Fwdhaeth ym Mhrydain fynediad hawdd i'r sangha mynachaidd â'i draddodiadau gwarchodedig, nac at fynachod, lleianod, lamas, meistri Zen ac ati.  Mae hyn hefyd yn bwrw amheuon dros ei ddilysrwydd cymharol.
5. Mae 'etifeddu' Bwdhaeth yn gosod popeth o fewn cyd-destun - megis myfyrio o fewn cyd-destun y bywyd moesol, dilyn y dasa sila a'r Llwybr Wythplyg Nobl, cyflawni'r paramitas a llwybr Bodhisattva Mahayana. Fodd bynnag, gall unigolion sydd wedi 'troi' at Fwdhaeth ystyried pethau allan o'u cyd-destun er mwyn darganfod yr hyn sy'n fwyaf addas ar gyfer yr unigolyn a'i amgylchfyd (amgylchedd cymdeithasol personol) yn unig.
6. Mae dysgeidiaethau megis sunyata a dulliau medrus yn awgrymu bod pob math o Fwdhaeth yn ddilys os ydynt yn anelu at liniaru dioddefaint a dangos y llwybr at oleuedigaeth.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A ellid dadlau bod unigolion sydd wedi 'troi' at Fwdhaeth yn ddilys iawn gan eu bod wedi dewis dod yn Fwdhydd yn hytrach nag etifeddu'r gred honno gan eu teuluoedd fel yn achos unigolion sydd wedi 'etifeddu' Bwdhaeth?
2. A yw 'troi' at Fwdhaeth ym Mhrydain yr un mor ddilys, dim mwy na dim llai, nag 'etifeddu' Bwdhaeth a fabwysiadwyd ac a addaswyd yn Nhibet, Tsieina a Japan?
3. A yw unigolion sy'n 'troi' at Fwdhaeth yn aberthu rhai o agweddau allweddol 'etifeddu' Bwdhaeth er mwyn apelio'n fwy cyffredinol?
4. I ba raddau y mae unigolion sy'n 'troi' at Fwdhaeth yn canolbwyntio'n syml ar fyfyrio, ymwybyddiaeth ofalgar ac arteffactau crefyddol Bwdhaidd poblogaidd?
5. I ba raddau y gellid dadlau nad yw rhai mathau o Fwdhaeth a gaiff eu 'hetifeddu' yn ddilys o safbwynt democratiaeth ryddfrydol Orllewinol yn y 21ain ganrif sy'n seiliedig ar ddarganfyddiadau gwyddonol, hawliau dynol a chyfalafiaeth?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Drwy gydol ei hanes, ni fu unrhyw 'Fwdhaeth', dim ond 'Bwdhaethau' ac mae unigolion sy'n 'troi' at Fwdhaeth yn parhau â'r hanes hwnnw.
2. Mae'n rhy gynnar datgan p'un a yw 'troi' at Fwdhaeth yr un mor ddilys gan fod y ffurf hon o Fwdhaeth ym Mhrydain wrthi o hyd yn sefydlu presenoldeb sylweddol a llais sylweddol.
3. Prin iawn yw dilysrwydd 'troi' at Fwdhaeth gan fod y Fwdhaeth honno wedi dangos ei bod yn rhy barod i addasu, a chael ei chyfyngu gan ofynion cymdeithas blwralaidd, aml-fydd a chyfalafol.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried arwyddocâd cymharol y nodweddion sy'n cyfrannu at boblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae poblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yn deillio o amlygiad parhaus pobl sy'n mynd ar eu gwyliau, yn hen ac yn ifanc, i wledydd megis Gwlad Thai lle mai Bwdhaeth yw'r prif grefydd.
2. Mae eiconograffi Bwdhaidd - yn enwedig ar ffurf y Bwdha rupa sy'n ymddangos mewn amrywiaeth eithriadol o ffurfiau o addurniadau gardd i ddarnau celf ar gyfer y tŷ - wedi chwarae rhan sylweddol wrth sicrhau y gellir uniaethu â Bwdhaeth ac wrth sicrhau ei phoblogrwydd.
3. Mae'r cyfryngau torfol - yn enwedig y rhyngrwyd - yn nodwedd bwysig sydd wedi cynyddu poblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain oherwydd gall pobl gael mynediad ar unwaith i bob ysgol Fwdhaeth, athrawon Bwdhaidd a ffynonellau cysegredig a ffynonellau o ddoethineb ac awdurdod Bwdhaidd, nad oeddent ar gael yn flaenorol.
4. I'r gwrthwyneb, y nodwedd fwyaf arwyddocaol mewn perthynas â phoblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yw'r ffaith bod Prydain yn gymdeithas aml-ffydd a phlwralaidd.
5. Y nodwedd fwyaf arwyddocaol mewn perthynas â phoblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yw nad oes angen cred mewn Duw fel creawdwr hollalluog, yn wahanol i'r holl brif grefyddau eraill yn y byd.
6. Y nodwedd fwyaf arwyddocaol mewn perthynas â phoblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yw ei rhesymoliaeth amlwg, ei phwyslais ar hunanddibyniaeth a'i dysgeidiaeth y gellir cyflawni goleuedigaeth yn ystod y bywyd hwn.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae poblogrwydd Bwdhaeth yn ymwneud llai â'i dysgeidiaethau a mwy â chysyniad ideolegol a chyfyngedig o Fwdhaeth fel rhywbeth sy'n ymwneud â delweddau egsotig a myfyrio?
2. Er bod Bwdhaeth o bosibl yn boblogaidd mewn termau haniaethol, i ba raddau y mae hyn wedi cael effaith sylweddol o ran 'troi' at Fwdhaeth?
3. A yw poblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yn ymwneud mwy â'r ffordd y mae'n cynnig dewis amgen i grefyddau confensiynol y gellid eu hystyried yn ddogmataidd a rhagnodol?
4. I ba raddau y mae'r cyfleoedd cynyddol i astudio Bwdhaeth mewn ysgolion a cholegau ar lefel arholiad wedi bod yn nodwedd arwyddocaol o ran ei phoblogrwydd ym Mhrydain?
5. A ellid dadlau mai teithio yw'r nodwedd allweddol mewn perthynas â phoblogrwydd Bwdhaeth gan fod unigolion megis Lama Shenpen Hookham neu Sangharakshita wedi gallu astudio am sawl blwyddyn yn Nhibet ac India cyn dychwelyd a chyflwyno Bwdhaeth yng Nghymru a Lloegr?

## Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Y nodwedd fwyaf arwyddocaol mewn perthynas â phoblogrwydd Bwdhaeth yw'r ffaith ei bod yn ymddangos yn seciwlar, a'r posibilrwydd y gellir ymrwymo i Fwdhaeth ddyneiddiol ddi-ffydd.
2. Mae poblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yn deillio o'r ffaith ei bod yn ymddangos fel petai'n cynnig atebion clir a difrifol i gwestiynau ysbrydol nas darperir gan grefyddau confensiynol.
3. Mae poblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain yn deillio o'r faith yr ystyrir ei bod yn egsotig ac y caiff ei deall mewn ffordd ideolegol sy'n cydweddu ag ysbryd yr oes.

## Thema 3: Datblygiadau cymdeithasol arwyddocaol mewn meddylfryd crefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 3 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae Bwdhaeth yn gydnaws â ffeministiaeth.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Bwdhaeth yn gwbl gydnaws â ffeministiaeth gan ei bod yn addysgu y gall pob bod ymdeimladol dynol gyflawni goleuedigaeth ni waeth beth fo'i ryw.
2. Yn wahanol i grefyddau eraill y byd, mae Bwdhaeth yn canolbwyntio ar yr hyn y gellid eu hystyried yn rhinweddau ffeministaidd megis cymuned, tosturi, cysylltiad, heddwch, cydbwysedd, rhyngddibyniaeth ac ati. Mae patriarchaeth yn ffynhonnell o ddioddefaint i ferched (a dynion) ac os mai prif nod Bwdhaeth yw trechu dioddefaint, rhaid iddi fod yn gydnaws â ffeministiaeth.
3. Yn arbennig o fewn Mahayana, mae Bwdhaeth yn gwbl gydnaws â ffeministiaeth o ran eiconograffi amlwg a chadarnhaol a chred mewn bodhisattvas megis Guanyin, y ffurf fenywaidd ar Avalokitesvara.
4. I'r gwrthwyneb, nid yw Bwdhaeth yn gydnaws â ffeministiaeth gan fod y Bwdha ei hun yn adlewyrchu gwreig-gasineb ei gyfnod drwy ei amharodrwydd i ordeinio Mahapajapati a'r merched a oedd yn gwmni iddi yn lleianod.
5. Nid yw Bwdhaeth Theravada yn gydnaws â ffeministiaeth gan ei bod yn arddel patriarchaeth Bwdhaeth drwy fethu â chydnabod lleianod a'r diffyg cydnabyddiaeth a geir yn yr Wyth Garudhamma – yn enwedig y cyntaf. Hefyd, merch Brenin y Dreigiau yn Sutra'r Lotus, y gellir ei ddarllen o safbwynt ffeministaidd a phatriarchaidd. Nid mater syml o Theravada=gwrth-ffeminist a Mahayana = ffeminist.
6. Mae'r Patimokkha yn y Vinaya Pitaka yn awgrymu nad yw Bwdhaeth yn gydnaws â ffeministiaeth o ystyried y 227 o reolau ar gyfer mynachod a'r 311 o reolau ar gyfer lleianod.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae p'un a yw Bwdhaeth yn gydnaws â ffeministiaeth ai peidio yn ymwneud mwy â'r diwylliant y caiff Bwdhaeth ei mynegi o'i fewn na chredoau Bwdhaidd?
2. I ba raddau y mae Bwdhaeth drwy ei hamlygiad i'r Gorllewin yn symud yn gyflym drwy waith Sakayadhita er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl gydnaws â ffeministiaeth?
3. A all Bwdhaeth fyth fod yn gwbl gydnaws â ffeministiaeth o ystyried y diffyg cyfleoedd cymharol i ferched ymgymryd â rolau arwain arwyddocaol ac amlwg yn y gwahanol draddodiadau Bwdhaidd?
4. A ellid dadlau bod athrawiaeth sunyata sy'n addysgu mai ffurf yw gwactod a gwactod yw ffurf yn awgrymu nad yw Bwdhaeth yn derbyn unrhyw achosion o wahaniaethu rhwng y rhywiau?
5. Sut mae stori trawsnewidiad Merch Brenin y Dreigiau yn Sutra'r Lotus yn nodi bod Bwdhaeth neu nad yw Bwdhaeth yn gydnaws â ffeministiaeth?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Y tu allan i'r sangha mynachaidd a beichiau diwylliannol, mae Bwdhaeth yn gwbl gydnaws â ffeministiaeth gan fod gan ferched statws cwbl cyfartal â dynion o ran anelu at oleuedigaeth a'i chyflawni.
2. Ni all Bwdhaeth fod yn gwbl gydnaws â ffeministiaeth oherwydd ei phatriarchaeth gynhenid sydd ond yn cael ei herio o ganlyniad i ddylanwad y Gorllewin.
3. Mae amlygrwydd ffigyrau benywaidd pwerus mewn eiconograffi a chred Bwdhaidd Mahayana yn dangos bod Bwdhaeth, o gymharu â chrefyddau eraill y byd, wedi bod yn gydnaws â ffeministiaeth a'i bod yn parhau felly.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pwynt bwled cyntaf yw ystyried natur unigryw Bwdhaeth Vajrayana.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gellir dod o hyd i Fwdhaeth Vajrayana (cyfrwng diemwnt neu daranfollt) yn Nhibet, mewn cymunedau Tibetaidd alltud, Teyrnasoedd Himalayaidd a thraddodiadau gorllewinol â llinachau Tibetaidd. Datblygodd yn hwyr iawn yn hanes datblygiad Bwdhaeth, a dim ond oddeutu'r 7fed-8fed ganrif OCC yr ymsefydlodd yn y rhanbarth.
2. Fodd bynnag, cafodd arferion crefyddol a oedd yn bodoli eisoes (Bön a shamaniaeth) ddylanwad sylweddol arni, ac mewn rhai achosion, fe'u hamsugnwyd i'r system grefyddol (e.e. duwiau Bön fel amddiffynwyr dharma).
3. Nid yw syniadau Vajrayana yn unigryw oherwydd gellir eu holrhain yn ôl i athroniaeth Nagarjuna. Mae Vajrayana – fel pob ffurf ar Fwdhaeth Mahayana - yn rhoi pwyslais cryf ar dosturi, doethineb a chamau gweithredu medrus.
4. Sefydlwyd Vajrayana, yn wahanol i fathau eraill o Fwdhaeth, gan y mahasiddhas. Fodd bynnag, fel sawl math arall o Fwdhaeth, mae'n seiliedig ar gorpws Sanskrit ac yn anelu at Fwdholiaeth fel ei nod.
5. Mae gan Vajrayana ffurfiau tantrig neu esoterig – sy'n golygu mai dim ond ar ôl proses sefydlu y caiff gwybodaeth/dysgeidiaeth ei throsglwyddo o'r athro i'r disgybl drwy ddulliau grymuso (abhiṣeka).  Dim ond Bwdhaeth Shingon Japaneaidd sydd hefyd yn dantrig/esoterig. Mae'r dull gweithredu hwn yn anghyffredin mewn Bwdhaeth.
6. Weithiau ystyrir Vajrayana fel 'trydydd cyfrwng' – yn ychwanegol at Theravada a Mahayana.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae agweddau esoterig ar Vajrayana yn golygu ei bod yn unigryw.
2. I ba raddau y ceir yr arferion (mudra, mantra, mandala, darlunio yidam, grymuso ac ati) o fewn mathau eraill o Fwdhaeth.
3. Rôl arweinwyr fel y tulkus, y Dalai Lama, y Panchen Lama – uno cyfrifoldebau crefyddol/seciwlar – i ba raddau y ceir hyn o fewn mathau eraill o Fwdhaeth.
4. Mae'r syniad o ailymgnawdoliad yn llawer cryfach yn Vajrayana – pa mor agos yw hyn i gysyniadau aileni Pali?
5. Mae Vajrayana yn ddefodol iawn – a yw hyn yn debyg neu'n wahanol i fathau eraill o Fwdhaeth?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Shingon yn Japan yn esoterig hefyd, ond fel arall, mae esoterigaeth yn anghyffredin mewn Bwdhaeth.
2. Gellir egluro'r gwahaniaethau rhwng systemau crefyddol drwy ddulliau medrus
3. Gellir dadlau nad yw Vajrayana yn unigryw, nid yw'n fwy unigryw na'r Tir Pur, Nichiren na Zen.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod yr ail bwynt bwled yw ystyried canologrwydd arferion fel ffyrdd o fynegi syniadau Bwdhaidd.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Ceir ffocws ar fantra mewn mathau eraill o Fwdhaeth – nembutsu y Tir Pur a Nichiren Daimoku.
2. Mae mudra yn ymddangos drwy eiconograffi Bwdhaidd. Fodd bynnag, mae'r arfer yn unigryw i Vajrayana (er mai ystum Bwdhaidd cyffredinol yw dod â chledrau'r dwylo at ei gilydd 'gassho')
3. A yw'n bosibl bod arferion yn mynegi syniadau Bwdhaidd yn well na dysgeidiaethau/trosiadau/naratif, gan eu bod wedi'u hymgorffori a'u hailadrodd?
4. Y syniad y gall arferion, a rennir gan y sangha, ddarparu cynhwysydd ar gyfer trosglwyddo'r dharma o un genhedlaeth i'r genhedlaeth nesaf.
5. Yn ôl y testunau Pali, nid addysgodd y Bwdha lawer o arferion ac roedd ganddo ddull gweithredu cymharol gwrth-ddefodol ar y cyfan.
6. Deellir arferion fel dulliau medrus, sy'n golygu y gallant fod yn briodol ar gyfer cymuned benodol ar adeg benodol mewn hanes ond nad oes ganddynt falens cyffredinol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Ceir cwestiynau ynghylch dylanwad crefyddau ac eithrio Bwdhaeth wrth asesu i ba raddau y gellir deall arfer fel arfer Bwdhaidd.
2. I ba raddau y mae'r arferion hyn yn cyfleu syniadau Bwdhaidd ac yn trosglwyddo'r dharma?
3. I ba raddau y mae'n arwyddocaol nad addysgwyd yr arferion hyn gan y Bwdha hanesyddol?
4. Os yw'r arferion hyn mor bwysig, pam mai dim ond lleiafrif o Fwdhyddion sy'n eu harfer?
5. I ba raddau y gall arferion 'ymgorffori' syniadau?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae Bwdhaeth yn ymwneud â dysgeidiaethau a chredoau yn ogystal ag arferion.
2. Dywedodd y Bwdha ei fod ond yn addysgu dau beth, sef dukkha a rhyddhad rhag dukkha. Mae hyn yn bwrw amheuon ar berthnasedd arferion mudra, mantra a mandala.
3. Mae arferion yn ddulliau medrus, nid beth ydynt sy'n bwysig - maent yn fysedd sy'n pwyntio at y lleuad. Yr hyn sy'n bwysig yw p'un a ydynt yn helpu.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy’n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

**Nod y trydydd pwynt bwled yw ystyried i ba raddau y gellir ystyried y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes fel mudiad Bwdhaidd.**

Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gellir ei ystyried yn Fwdhaidd gan fod y Llwybr Wythplyg Nobl yn cyfeirio at Ymwybyddiaeth Ofalgar Gywir.
2. Mae traddodiadau myfyrio Bwdhaidd megis samatha bob amser wedi anelu at yr un nod â'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes.
3. Un o nodau Bwdhaeth yw lliniaru dioddefaint dynol. Dyma union nod y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes a byddai dulliau medrus yn awgrymu bod hynny'n golygu ei fod yn fudiad Bwdhaidd.
4. I'r gwrthwyneb, dim ond ffurf ar ddiffyg ymwybyddiaeth yw'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes h.y. dianc o'r cyflwr dynol yn hytrach na wynebu realiti o ran y tri lakshana.
5. Mae'r ffaith bod sylfaenydd y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes, Jon Kabat Zinn, yn ei gyflwyno fel mudiad nad yw'n Fwdhaidd yn nodi mewn gwirionedd na ddylid ei ystyried yn fudiad Bwdhaidd.
6. Mae Thich Nhat Hanh yn argymell y dylid arfer ymwybyddiaeth ofalgar drwy fyfyrio wrth gerdded yn araf a thrwy wenu. Mae'n athro Bwdhaidd uchel ei barch sy'n awgrymu bod ymwybyddiaeth ofalgar yn Fwdhaidd.

Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Ai'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yw'r traddodiad myfyrio Bwdhaidd gorau ar gyfer y byd modern?
2. Gan fod y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn ffordd ardderchog o gael gwared ar dosa (casineb), lobha (trachwant) a moha (rhithdyb/anwybodaeth), oni ddylid ei ystyried fel mudiad Bwdhaidd?
3. A yw'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn cydweddu'n well â'r mudiad hunan-gymorth seciwlar yn hytrach nag yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â Bwdhaeth?
4. I ba raddau y mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn ymdrin ag un agwedd fach iawn ar Fwdhaeth yn unig heb unrhyw gyfeiriad at ddysgeidiaethau allweddol fel y tri laksahanas neu pratityasamutpada, karma ac aileni?
5. A ellid ystyried y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn gyfrwng fel y rheini y cyfeirir atynt yn Nameg y Tŷ sy'n Llosgi?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn Fwdhaidd gan ei fod yn y bôn yn ffurf ar fyfyrio Bwdhaidd sy'n canolbwyntio'r meddwl ar y presennol.
2. Nid yw'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn Fwdhaidd gan nad oes angen unrhyw gredoau na dysgeidiaethau Bwdhaidd allweddol arno neu nad yw'n ymdrin ag unrhyw gredoau na dysgeidiaethau o'r fath.
3. Rhaid trin dioddefaint unigolyn mewn modd tosturiol a dyna y mae Bwdhaeth yn ei arddel - mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn ymdrin â phroblem sylweddol, yn arbennig yn y Gorllewin, ac yn cynnig llwybr tosturiol er mwyn lliniaru'r broblem hon.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pedwerydd bwynt bwled yw ystyried i ba raddau y mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn cynnig datrysiad i ddioddefaint.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae Bwdhaeth yn addysgu y caiff dioddefaint ei achosi gan dosa (casineb), lobha (trachwant) a moha (rhithdyb/anwybodaeth). Un o effeithiau ymwybyddiaeth ofalgar yw rhoi ffocws i'r meddwl a'i dawelu er mwyn ceisio dileu'r tri pheth hyn.
2 Gall y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes gynnig datrysiad i ddioddefaint drwy ei ffocws ar ddatgysylltu o ysgogiadau a dyheadau allanol. Byddai hyn yn cyfateb i'r broses o fynd i'r afael ag achos dioddefaint fel y'i datgelir yn yr ail Wirionedd Nobl: tanha.
3. Ar rai lefelau, caiff dioddefaint ei achosi gan feddwl 'y mwnci' sy'n gofyn yr un math o gwestiynau yn Nameg y Saeth Wenwynig. Mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn anelu at sicrhau tawelwch a llonyddwch yn y meddwl ymholgar gorfywiog.
4. Nid yw'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn ystyried achosion dioddefaint, dim ond canolbwyntio ar drin y symptomau. Dim ond gohirio dioddefaint a wneir, ac nid ymdrinnir ag ef yn briodol.
5. Mae'r ffaith bod y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn cael ei dderbyn yn gyffredinol yn y byd busnes ac addysg yn dangos ei fod yn ymwneud yn bennaf â helpu i dawelu pobl a'u gwneud yn fwy cynhyrchiol yn hytrach nag ymdrin â'u poen.
6. Nid yw'n fwy defnyddiol nac yn llai defnyddiol fel datrysiad i ddioddefaint nag unrhyw fath arall o therapi hunan-help gan amrywio o hunan-hypnosis i Therapi Ymddygiad Gwybyddol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. A yw'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn anelu mewn unrhyw ffordd at 'fod yn ddatrysiad i ddioddefaint'?
2. Os profwyd yn wyddonol bod y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes wedi helpu mewn achosion lle mae pobl yn gaeth i sylweddau a meysydd sy'n gysylltiedig â gofal iechyd lliniarol, onid yw hyn yn dangos ei fod yn cynnig datrysiad i ddioddefaint?
3. I ba raddau mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn gweithredu fel gwellhad byrdymor dros dro o ran lliniaru dioddefaint yn hytrach na datrysiad?
4. Ac eithrio dioddefaint corfforol, gellir priodoli dioddefaint y rhan fwyaf o bobl i'r hyn sy'n digwydd yn y meddwl. A yw'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes o leiaf yn dechrau ymdrin â dioddefaint yn y meddwl mewn ffordd a esgeuluswyd yn y gorffennol?
5. A ddylid cymhwyso dulliau medrus at y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes a chydnabod bod ganddo ran bwysig i'w chwarae fel datrysiad i ddioddefaint?

### Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Yn dilyn goleuedigaeth y Bwdha, gallai addysgu am ddiwedd dioddefaint ac mae'n bosibl, os caiff ei gynnwys yn llawn, y gallai'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes helpu i gynnig datrysiad i ddioddefaint.
2. Mae'r mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes wedi dibynnu gormod ar farchnata torfol a diddordeb pobl yn y chwiw hunan-gymorth diweddaraf i fod o unrhyw ddefnydd arwyddocaol fel datrysiad i ddioddefaint.
3. Gellid cymhwyso'r Kalama Sutta er mwyn dangos, yn seiliedig ar dystiolaeth empiraidd, fod y mudiad Ymwybyddiaeth Ofalgar cyfoes yn gweithredu fel datrysiad i ddioddefaint. Pe na fyddai, ni fyddai mor boblogaidd.

## Thema 4: Arferion crefyddol sy'n dylanwadu ar hunaniaeth grefyddol

Mae Bwdhaeth Thema 4 ABC yn ystyried chwe man cychwyn i ganolbwyntio arnynt wrth werthuso.

## Nod y pumed pwynt bwled yw ystyried cyfiawnder cymdeithasol fel amod ar gyfer ufuddhau i ddysgeidiaethau Bwdhaidd.

### Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Mae dysgeidiaethau Bwdhaidd yn canolbwyntio ar ddileu dukkha ym mhob ffurf ac ar karuna (tosturi). Mae'r rhain yn dangos bod anelu at gyfiawnder cymdeithasol yn amod.
2. Mae angen ymdrin â phresenoldeb dosa (casineb), lobha (trachwant) a moha (rhithdyb/anwybodaeth) mewn cymdeithas a sut i gael gwared arnynt drwy ganolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol. Dim ond wedyn y gellir parchu dysgeidiaethau Bwdhaidd.
3. O'u hystyried gyda'i gilydd gan ddilyn y dasa sila, mae'r Llwybr Wythplyg Nobl neu gyflawni'r paramitas a llwybr Bodhisattva Mahayana oll yn awgrymu bod angen rhoi sylw i hapusrwydd a lles eraill. Mae hyn yn awgrymu bod cyfiawnder cymdeithasol yn amod.
4. Nid yw dysgeidiaethau Bwdhaidd erioed wedi dangos unrhyw bryder gweithredol at gyfiawnder cymdeithasol gan fod presenoldeb dukkha yn un o'r lakshanas - gwirionedd cyffredinol. Mae canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol fel amod yn gwadu'r gwirionedd hwn.
5. Mae dysgeidiaethau Bwdhaidd yn anelu at oleuedigaeth ac aileni cadarnhaol a chyflawnir y nodau hyn drwy ganolbwyntio ar yr hunan. Felly, nid yw cyfiawnder cymdeithasol yn amod.
6. Mae'r ffocws ar gyfiawnder cymdeithasol yn deillio i raddau helaeth o ddylanwad y Gorllewin a Bwdhyddion sydd wedi 'troi' at Fwdhaeth. Er ei fod o bosibl yn amod yn hyn o beth, nid yw'n amod mewn perthynas â Bwdhaeth yn gyffredinol.

### Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. I ba raddau y mae diffyg cyfiawnder cymdeithasol yn y dhamma yn dangos nad yw'n amod ar gyfer dysgeidiaethau Bwdhaidd?
2. Mae'r Dalai Lama a Thich Nhat Hanh – dau arweinydd Bwdhaidd arwyddocaol iawn wedi pwysleisio pwysigrwydd cyfiawnder cymdeithasol fel amod. Oni ddylid cydnabod eu hawdurdod fel ffynonellau doethineb yn y maes hwn?
3. Wrth gwrs, dylai Bwdhyddion anelu at heddwch, ond mae 'cyfiawnder cymdeithasol' hefyd yn awgrymu y dylid gweithredu yn erbyn anghydraddoldeb mewn cymdeithas a chyfalafiaeth ei hun. A ellid dadlau felly bod 'cyfiawnder cymdeithasol' yn derm rhy eang yn hyn o beth?
4. I ba raddau y gellid dadlau fel yr addysgodd y Bwdha yn yr Andha Sutta (AN 3.29) fod yn rhaid ymdrin â chyfiawnder cymdeithasol fel amod gan mai dim ond ar ôl diwallu anghenion sylfaenol unigolyn y gall yr unigolyn hwnnw wedyn ganolbwyntio ar y dhamma?
5. I ba raddau y gellid dweud fod cred mewn pretas (ysbrydion newynog) sy'n dioddef am eu bod yn llygredig, yn hunanol ac yn drachwantus, yn nodi bod osgoi'r dynged hon drwy weithio er budd cyfiawnder cymdeithasol yn amod ar gyfer dysgeidiaethau Bwdhaidd?

Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Mae Bwdhaeth yn ymwneud â'r unigolyn 'cyfan' sy'n rhan o'r we gymhleth o strwythurau sy'n creu cymdeithas fodern. Felly, rhaid i gyfiawnder cymdeithasol fod yn amod pwysig er mwyn parchu dysgeidiaethau Bwdhaidd.
2. Mae dysgeidiaeth Fwdhaidd yn canolbwyntio'n llwyr ar hunan-wybodaeth a hunan-rymuso ac felly nid yw cyfiawnder cymdeithasol yn amod.
3. Mae Bwdhyddion dros ganrifoedd yn y gorffennol o Theravada, Mahayana, y Tir Pur, Nichiren a Zen, wedi dangos eu bod yn parchu dysgeidiaethau Bwdhaidd yn llawn heb ddangos unrhyw ddiddordeb mewn cyfiawnder cymdeithasol.

**Nod y chweched pwynt bwled yw ystyried a yw ymgysylltu â'r gymdeithas yn amharu ar y gallu i ganolbwyntio ar y llwybr at Ddeffroad.**

## Gellir defnyddio'r chwe phwynt canlynol fel man cychwyn wrth ddatblygu dadl addas:

1. Gall ymgysylltu â chymdeithas amharu ar y diwydrwydd sy'n ofynnol gan y Bwdha hanesyddol yn ei eiriau olaf: ‘Mae holl gydrannau'r byd yn gyfnewidiol. Nid ydynt yn barhaus. Ymdrechwch o ddifrif.'
2. Mae ymgysylltu â chymdeithas yn ffordd o osgoi'r hyn sy'n ofynnol ar y llwybr at Ddeffroad: dileu dosa (casineb), lobha (trachwant) a moha (rhithdyb/anwybodaeth) o'r unigolyn.
3. Nid oes unrhyw ysgol Fwdhaidd - Theravada, Mahayana, y Tir Pur, Nichiren na Zen – yn datgan yn amlwg bod ymgysylltu â'r gymdeithas yn rhan bwysig o'r llwybr at Ddeffroad.
4. Yn Theravada, mae'r sangha mynachaidd yn dibynnu ar lesiant pobl leyg am gefnogaeth fel bhikkus sy'n dilyn y llwybr at Ddeffroad. Felly, o ystyried y gydberthynas symbiotig hon, mae'n hanfodol ymgysylltu'n gymdeithasol â phryderon pobl leyg.
5. Tasg Bodhisattvas yw dangos tosturi i bob bod ymdeimladol wrth iddynt deithio tuag at Ddeffroad. Dim ond os bydd ymgysylltu tosturiol ag unrhyw faterion mewn cymdeithas sy'n atal y daith honno rhag digwydd y bydd y daith yn bosibl.
6. Nid yw ymgysylltu â chymdeithas yn amharu ar y llwybr at Ddeffroad gan ei fod yn syml yn golygu ymdrin â materion allweddol a drafodir yn y dasa sila megis gwneud niwed i eraill, camddefnyddio rhyw a bod yn gaeth i sylweddau sy'n cymylu'r meddwl.

## Gallai cwestiynau allweddol a all godi gynnwys y canlynol:

1. Gellid dadlau bod canolbwyntio ar ymgysylltu â chymdeithas yn gwneud yr hyn y cynghorodd y Bwdha yn ei erbyn - sef canolbwyntio ar y bysedd sy'n pwyntio at y lleuad yn hytrach nag ar y lleuad ei hun.
2. A ellid dweud bod ymgysylltu â chymdeithas yn darparu 'yana' (cyfrwng) newydd ar gyfer yr oes fodern sy'n rhan o'r ekayana (un llwybr/cyfrwng) sy'n arwain at Ddeffroad?
3. Mae'r materion yr ymdrinnir â nhw drwy ymgysylltu â chymdeithas yn anfeidraidd, ond mae bywyd unigolyn yn feidraidd. A ellid dweud felly bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth frys i Ddeffroad yr unigolyn yn lle hynny?
4. I ba raddau y mae ymgysylltu â chymdeithas eisoes yn bresennol ar y llwybr at Ddeffroad drwy agweddau allweddol ar y Llwybr Wythplyg Nobl, megis gweithredu cywir a bywoliaeth gywir?
5. I ba raddau y byddai'n wir dweud oherwydd na all y Deffroad fyth digwydd ar ei ben ei hun - gan fod Bwdhyddion yn eu gorffennol, eu presennol a'u dyfodol yn rhan o gymdeithas - bod ymgysylltu â chymdeithas felly yn hanfodol?

## Gallai casgliadau posibl i rai dadleuon a gyflwynwyd gynnwys y canlynol:

1. Yn y byd modern, mae Bwdhyddion yn chwarae rhan lawn yn y byd ac ni allant bellach fod yn rhan o 'Draddodiad y Goedwig'. Felly, mae ymgysylltu â chymdeithas yn rhan angenrheidiol o'r llwybr at Ddeffroad.
2. Mae 'meddwl y mwnci' – mae'r meddwl yn ansefydlog ac yn aflonydd, dim ond ffordd arall o amharu ar feddwl y Bwdhydd yw ymgysylltu â chymdeithas – yn arbennig yn y Gorllewin – ar y llwybr at Ddeffroad.
3. Mae Dana (haelioni) yn un o rinweddau ac arferion creiddiol Bwdhaeth ar y llwybr at Ddeffroad. Er mwyn gweithredu Dana heddiw, rhaid ymgysylltu'n llawn â'r gymdeithas.